

**AWDURDOD Y PARC CENEDLAETHOL  
(Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol)**

**05 Mehefin 2019**

Yn bresennol: Mr A Archer, y Cynghorydd Mrs D Clements, y Cynghorydd K Doolin, y Cynghorydd M Evans, y Cynghorydd P Harries, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, y Cynghorydd M James, y Cynghorydd P Kidney, y Cynghorydd PJ Morgan, y Cynghorydd R Owens, Dr RM Plummer, y Cynghorydd A Wilcox, y Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00a.m. – 10.40a.m.)

**1. Ethol Cadeirydd**

Dyweddod y Prif Weithredwr mai un enwebiad a ddaeth i law ar gyfer swydd y Cadeirydd; y Cynghorydd P Harries.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ethol y Cynghorydd P Harries yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

*[Daeth y Cynghorydd P Harries i'r Gadair a bu'n llywyddu am weddill y cyfarfod.]*

**2. Diolchiadau'r Cadeirydd**

Diolchodd y Cynghorydd P Harries i'r Aelodau am ei ethol yn Gadeirydd yr Awdurdod. Hefyd dymunodd ddiolch i'r Cadeiryddion blaenorol – Mrs G Hayward a'r Cynghorydd M James – gan ddweud y byddai'n dod ar eu gofyn am gyngor ac arweiniad yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Roedd hefyd yn llawn gobaith o gael cefnogaeth yr Aelodau yn y flwyddyn sydd i ddod.

Ychwanegodd y byddai wrth ei fodd yn hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol a dibenion a dyletswyddau'r Parc yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd gan ei fod yn angerddol am y Parc ac am yr amgylchedd morol.

**3. Ethol Dirprwy Gadeirydd**

Dyweddod y Cadeirydd mai un enwebiad a ddaeth i law ar gyfer swydd y Dirprwy Gadeirydd: y Cynghorydd Mrs D Clements.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ethol y Cynghorydd Mrs D Clements yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

**4. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol oddi wrth y Cynghorydd P Baker, Mrs J James a Mr GA Jones.



## 5. **Gair o groeso**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Dr Madeleine Havard i'w chyfarfod cyntaf o'r Awdurdod. Roedd Dr Havard wedi'i phenodi yn ddiweddar yn Aelod o'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru yn lle Mrs Gwyneth Hayward, oedd wedi dod i ddiwedd ei thymor yn y swydd. Ychwanegodd bod Mr Gwynn Angell Jones hefyd wedi'i benodi gan Lywodraeth Cymru yn lle Mr Ted Sangster, ond nid oedd Mr Jones wedi gallu bod yn bresennol y diwrnod hwnnw.

Diolchodd Dr Havard i'r Cadeirydd am ei groeso.

## 6. **Datgelu buddiant**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

## 7. **Aelodaeth o Bwyllgorau a Sefydliadau Allanol**

Cyn cyflwyno ei hadroddiad i'r Aelodau, estynnodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd ei llongyfarchiadau i'r Cynghorwyr Harries a Mrs Clements ar gael eu hethol yn Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod. Ychwanegodd ei bod yn edrych ymlaen at weithio'n agosach gyda'r ddau yn ystod eu cyfnod yn y swydd.

Gan droi at ei hadroddiad, atgoffodd yr Aelodau ei bod yn arferol yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol i adolygu aelodaeth Pwyllgorau a Grwpiau'r Awdurdod, ynghyd â chynrychiolwyr yr Awdurdod ar gyrrff allanol.

Ychwanegodd nad oedd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion na'r Pwyllgor Apeliadau wedi'u cynnwys yn ei hadroddiad gan y byddai eu cyfansoddiad yn cael ei gadarnhau yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod pan fyddai Cadeiryddion y Pwyllgorau, oedd yn aelodau o'r Pwyllgorau dan sylw, yn hysbys erbyn hynny.

Dywedodd y Cynghorydd R Owens ei fod yn gwasanaethu ar Bwyllgor Cadwraeth Ynys Sgomer fel cynrychiolydd Cyngor Sir Penfro. Roedd o'r farn y dylai'r Awdurdod hefyd gael ei gynrychioli ar y Pwyllgor. Atebodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd y byddai'n cysylltu â'r awdurdodau dan sylw i drafod y mater.

## **PENDERFYNWYD:**

- (a) cytuno ar yr aelodaeth a ganlyn ar Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ei Bwyllgorau a'i Grwpiau:

## **AWDURDOD Y PARC CENEDLAETHOL**

Pob Aelod



## **Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU**

Pob Aelod

## **Y PWYLLGOR ARCHWILIO AC ADOLYGU GWASANAETHAU CORFFORAETHOL (6 CSP, 3 LIC)**

Y Cynghorydd P Baker	Mr A Archer
Y Cynghorydd Mrs D Clements	Dr R Heath-Davies
Y Cynghorydd M James	Mr GA Jones
Y Cynghorydd P Kidney	
Y Cynghorydd R Owens	
Y Cynghorydd M Williams	

## **Y PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL (6 CSP, 3 LIC)**

Y Cynghorydd K Doolin	Dr M Havard
Y Cynghorydd ML Evans	Mrs J James
Y Cynghorydd P Harries	Dr RM Plummer
Y Cynghorydd PJ Morgan	
Y Cynghorydd A Wilcox	
Y Cynghorydd S Yelland	

## **Y PWYLLGOR PERSONÉL (6 CSP, 3 LIC)**

Y Cynghorydd Mrs D Clements	Dr R Heath-Davies
Y Cynghorydd ML Evans	Mrs J James
Y Cynghorydd M James	Mr GA Jones
Y Cynghorydd PJ Morgan	
Y Cynghorydd A Wilcox	
Y Cynghorydd S Yelland	

## **FFORWM GWEITHWYR (4 CSP, 2 LIC)**

Y Cynghorydd P Harries	Mr A Archer
Y Cynghorydd P Kidney	Dr RM Plummer
Y Cynghorydd R Owens	
Y Cynghorydd M Williams	

## **GRŴP GWELLIANT PARHAUS (4 Aelod)**

Cadeirydd, Awdurdod Parc Cenedlaethol  
Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol  
Cadeirydd, Pwyllgor Adolygu Gweithredol  
Cadeirydd, Pwyllgor Rheoli Datblygu

## **PWYLLGOR CYNORTHWYO A DATBLYGU AELODAU (9 Aelod)**

Y Cynghorydd Mrs D Clement	Mr A Archer
Y Cynghorydd K Doolin	Mrs J James
Y Cynghorydd M James	Dr RM Plummer
Y Cynghorydd P Kidney	





**CYNGHRAIR Y PARCIAU CENEDLAETHOL** (*Un Aelod*)

Dr M Havard

**GRŴP YMGYNGHOROL/GRŴP ARFORDIR BAE ABERTEIFI**

Y Cynghorydd M James

Y Cynghorydd P Harries (*Dirprwy*)

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL PORTHLADD ABERDAUGLEDDAU**

(*Un Aelod a Dirprwy*)

Y Cynghorydd R Owens

Y Cynghorydd S Yelland (*Dirprwy*)

**FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR BENFRO** (*Un Aelod*)

Y Cynghorydd P Harries

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR SAUNDERSFOOT**

Y Cynghorydd P Kidney

**GWEITHGOR AGREGAU RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU –  
FFORWM AELODAU'R DATGANIAD TECHNEGOL RHANBARTHOL**

(*Un Aelod a Dirprwy*)

Mr A Archer

Y Cynghorydd M James (*Dirprwy*)

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL COLEG SIR BENFRO**

Y Cynghorydd M James

- (d) cadarnhau cyfansoddiad y Pwyllgor Archwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau yn y cyfarfod nesaf pan fyddai holl Gadeiryddion/Dirprwy Gadeiryddion yr amryfal Bwyllgorau wedi cael eu hethol;
- (e) bod cynrychiolaeth ar y cyrff canlynol yn cael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf o'r Awdurdod:
  - (i) Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol, ac
  - (ii) Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro.

